

Ymwelwyr Tramor – Llythyr Gwybodaeth i Gleifion

Pam fy mod wedi derbyn y llythyr hwn?

Rydych chi wedi derbyn y llythyr hwn oherwydd bod angen i chi gadarnhau a ydych chi gymwys i gael triniaeth ysbyty am ddim gan y GIG.

Yn y DU, mae mynediad at ofal iechyd am ddim y GIG yn dibynnu ar:

- Fyw yn y DU ar sail sefydlog (a elwir yn "preswlydd fel arfer"), a
- Bod â hawl cyfreithiol i fyw yma

Mae gan ysbytai ddyletswydd gyfreithiol i wirio hyn ar gyfer rhai cleifion.

Pwysig – ni fydd hyn yn effeithio ar eich gofal

- Byddwch yn dal i dderbyn unrhyw driniaeth frys neu driniaeth sy'n angenrheidiol ar unwaith.
- Ni fydd y broses hon yn oedi eich gofal.

Beth sydd angen i mi ei wneud nawr?

Rhowch wybodaeth am eich statws preswlydd fel y gallwn asesu eich cymhwysedd. Dylech:

- Anfon copïau o'ch dogfennau atom

Gallwch:

- E-bostio copïau i: abb.overseasvisitors@wales.nhs.uk
- Neu postiwch gopïau i'r cyfeiriad yn eich llythyr

Rhowch eich rhif cyfeirnod ac anfonwch eich dogfennau erbyn y dyddiad a nodir yn eich llythyr.

Pa wybodaeth fydd angen i mi ei darparu?

Efallai y byddwn yn gofyn am fanylion fel:

- Eich enw, dyddiad geni a chyfeiriad
- Eich cenedligrwydd a'ch statws mewnffudlo
- Y dyddiad y teithioch chi i'r DU ac oddi yno
- Manylion unrhyw fisa neu statws preswlydd
- Gwybodaeth am yswiriant teithio neu yswiriant iechyd
- Cod rhannu Swyddfa Gartref

Bydd angen i chi hefyd ddarparu tystiolaeth, megis:

- Pasbort, fisa neu ddogfennau preswlydd
- Trwydded Yrru
- Prawf o'ch cyfeiriad (e.e. bil cyfleustodau neu ddatganiad banc)
- Unrhyw ddogfennau eraill sy'n cefnogi eich cymhwysedd

Fe ddylai'r rhain fod yn gopïau. Peidiwch ag anfon dogfennau gwreiddiol.

A fydd yn rhaid i mi dalu am driniaeth?

Efallai y codir tâl ar rai cleifion am driniaeth y GIG yn dibynnu ar eu hamgylchiadau.

- Byddwn yn asesu eich cymhwysedd ar ôl adolygu eich gwybodaeth
- Os bydd angen codi tâl arnoch, byddwn yn egluro hyn i chi
- Mewn rhai achosion, efallai y bydd anfonebau'n cael eu codi ar gyfer y driniaeth a ddarperir

Bydd darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn brydlon yn helpu i osgoi oedi yn y broses hon.

Beth os nad ydw i'n siŵr beth i'w anfon?

Os nad ydych yn siŵr:

- Anfonwch gymaint o wybodaeth ag y gallwch
- Cysylltwch â ni i gael cyngor

Rydym yn hapus i helpu.

A fydd fy ngwybodaeth yn cael ei gwirio?

Efallai y bydd angen i ni gadarnhau eich manylion gyda sefydliadau swyddogol, megis y Swyddfa Gartref.

Mae hyn yn rhan o'n dyletswydd gyfreithiol, a bydd eich gwybodaeth yn cael ei thrin yn unol â chyfreithiau diogelu data.

Gwybodaeth Bwysig

Rhowch wybodaeth gywir a chyflawn

Gall rhoi gwybodaeth anghywir effeithio ar eich cymhwysedd

Os nad ydym yn derbyn digon o dystiolaeth, efallai y bydd tâl am driniaeth yn berthnasol

Angen help?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r Tîm Ymwelwyr Tramor:

☎ 01873 732387 / 01873 733105

✉ abb.overseasvisitors@wales.nhs.uk

🕒 Dydd Llun i Ddydd Gwener, 9am–4pm